

# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

01248 602131

[CyngorLlanllechid@ogwen.org](mailto:CyngorLlanllechid@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 10 Medi, 2020 am 19.00

### 1. PRESENNOL:

#### Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

#### Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.**

**2. Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Wyn Bowen Harris ac Alun Thomas.

Cydymdeimlwn yn ddifuant gyda Cyng. Dafydd Jones yn dilyn profedigaeth ei wraig yn ddiweddar iawn.

### 3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf, 2020.

### 4. Materion yn codi o'r cofnodion

**Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth** – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Gwaith gwair ar y caeau ar hyn o bryd, felly dim brys am ddiweddariad ar hyn o bryd. Y Clerc i holi am ddiweddariad ym mis Medi.

**Wal Maes y Groes** – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Lôn Goed** – cylfat diffygiol yn gwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

**Wern Bach** – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

**Clwb Rygbi Bangor** – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi derbyn ffurflen cwyn gan yr adran gorfodaeth, Cyngor Gwynedd. Y Clerc i gwblhau'r ffurflen cyn gynted a bu'r modd.

**Llwybrau cyhoeddus** – llawer o ddryswch yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod clo ar ba lwybrau oedd y rhai cyhoeddus o gwmpas Fferm Tan y Garth. Y Clerc a Cyng. Jên Morris

wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn.

**Cae Chwarae Talybont** – y Clerc wedi derbyn goriadau gan Cyngor Gwynedd, ond nid oedden nhw yn gweithio. Y contractwr wedi gorfod torri'r chaen er mwyn gael mynediad i'r cae. Y Clerc i holi'r Cyngor am y 4 goriad gwreiddiol i'r clouau.

**Ysbwriel/Biniau**– Adroddwyd Cyng. Megan Tomos bod 3 bag ysbwriel wedi gael ei gadael yn ngwaelod Parc Main a nodwyd Cyng. Margaret Fernley fod yno 2 bin gwyrdd wedi gael ei adael is-lawr o'r Fedw. Cyng. Megan Tomos a Margaret Fernley i ddanfon ebost gyda'r lleoliadau i Cyng. Dafydd Meurig.

## 5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

J Johnson – Toriad ger Capel Bethlehem – Diffibriliwr	£60.00
J Johnson – Toriad Bro Emrys, Gorffennaf 2020	£120.00
J Johnson – Toriad Bro Emrys, Awst 2020	£180.00
J Johnson – Toriad Cae Gwigin, Mehefin a Gorffennaf 2020	£90.00
J Johnson – Toriad Cae Gwigin, Awst 2020	£60.00
J Johnson – Toriad cae chwarae newydd, Mehefin a Gorffennaf	£180.00
J Johnson – Toriad cae chwarae newydd, Awst 2020	£180.00
RoSPA Play Safety – Arolygiad blynyddol 2020	£107.40

## 6. Rheoli Llifogydd (Maes y Groes a Tan Lon)

**Maes y Groes** – Cyng. Evan Jones wedi cylchredeg lluniau o'r sustem atal llifogydd tynnwyd yn ystod mis Awst. Nid oedd y sustem wedi gael ei glirio yn ystod yr haf, ac roedd y dwr wedi dod dros yr wal yn ystod y glaw mawr. Preswylwyr Maes y Groes yn bryderus iawn oherwydd nid yw'r gwaith cynnal yn cael ei gwblhau yn iawn, ac nid yw'r sustem yn gael archwilio yn rheolaidd. Cyng. Evan Jones i ysgrifennu ei bryderon a'i danfon at y Clerc – y Clerc i addasu a'i danfon ymlaen at YGC. Y Cyng. Dafydd Meurig hefyd i gysylltu i holi beth yw'r drefn/amserlen cynnal a chadw.

**Tan Lon** – Lluniau a fideos o'r llifogydd a dynwyd yn ystod mis Awst wedi gael ei gylchredeg. Cadarnhawyd y bydd cynllun amlinellol ar gael erbyn diwedd yr wythnos gyda'r gobaith i cychwyn y gwaith diwedd mis Hydref.

## 7. Cae chwarae Tal y Bont

Cynhaliwyd cyfarfod ar y safle ar 9 Medi 2020. Penderfynwyd y byddai cae 5 bob ochr yn opsiwn tymor byr, a llwybr o amgylch gweddill y cae ar gyfer cerdded/beicio. Cytunwyd y byddai Cyng. Alun Thomas yn edrych am bris llogi peiriant torri gwair dros y tymor torri. Cyng. Dafydd Meurig i amlinellu'r bwriad gyda aelodau'r cymuned. Y Clerc i gael dyfynbris ar gyfer pyst gol 5 bob ochr gan G L Jones.

## 8. Y Mynydd

Nodwyd bod y bugail wedi cwblhau 2 sesiwn hel hyd yn hyn. Y bugail i danfon adroddiad y hel cyn gynted a phosib, a'i danfon ymlaen at Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Y Clerc i ddanfon rhestr porwyr i'r bugail.

Trafferthion gyda terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes, y Clerc i gysylltu hefo Stad Penrhyn unwaith eto.

'Gliders' wedi bod yn defnyddio Moel Wnion yn ddiweddar, gyda ormodedd ohonynt yn gael hyfforddiant. Cytunwyd yn y gorffennol y byddai caniatad i dim ond 2 glider ar unwaith. Y Clerc i hysbysu Alan Pritchard, Warden Parc Eryri.

## **9. Gohebiaeth**

**Cyflwynwyd** – Goleuadau Clwb Rygbi Bangor – Y Clerc i lewni'r ffurflen cwyn gorfodaeth.

**Cyflwynwyd** – David a Carol Williams – Cwyn am Ogwen Bank – Y Clerc i ymateb i cydnabod eu cwyn. Mae'r tir mewn sylw yn dir preifat, felly yn mater rhwng y tiffeddiannwr a Stad Penrhyn. Danfon manylion Elis Jones, Stad y Penrhyn.

**Cyflwynwyd** – Howard Huws, Cylch yr Iaith – Gor-dwristiaeth yng Nghymru – dim sylw.

**Cyflwynwyd** – Beca Roberts, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau – danfon gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod ym mis Hydref neu Tachwedd.

**Cyflwynwyd** – ebost David Roberts – Cyngor Cymuned Llandwrog – Gwasanaeth torri gwair Cyngor Gwynedd – y Clerc i ymateb – egluro ein bod bellach yn talu rhywun i gwblhau'r gwaith oherwydd diffyg toriadau. Mae'r Cyngor hefyd yn dibynnu ar gwirfoddolwyr o fewn ein cymunedau i wneud y gwaith.

**Cyflwynwyd** – ebost gan Cyngor Cymuned Llanllyfni – Codi tal am fynediad i'r Wyddfa – nid yw'r aelodau yn teimlo ei fod yn bosib nag yn ymarferol codi tal oherwydd bod y llwybrau yn rhai cyhoeddus, ond yn fodlon cefnogi'r cyfarfod er mwyn trafod syniadau eraill.

## **10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**

**Partneriaeth Ogwen** – diweddariad gan y Bartneriaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

## **11. Penderfyniadau Cynllunio:**

### **C20/0154/21/CC**

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C19/0950/21/LL**

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

### **C20/0516/13/DT**

2 Parc y Moch, Bethesda

Cais i ddymchwel ystafell wydr presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le

**Penderfyniad:** Ar y gweill

## **Ceisiadau Cynllunio:**

### **NP3/21/20B**

Bryn Hall, Llanllechid

Dymchwel y strwythr cefn presennol, adeiladu estyniadau unllawr ar yr ochr a cefn a gosod ffenstri to

**Penderfyniad:** Dim sylw.

**C20/0691/21/AC**

Bryn Derwas, Talybont

Diwygio amod 2 o ganiatad rhif C20/0332/21/DT er mwyn creu swyddfa uwchben y modurdy

Penderfyniad: Dim sylw.

**13. Materion Brys**

Dim.